| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Ionawr 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2014/15. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y gyllideb.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2014/15 (**Atodiad 1**). Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £188 miliwn (£192 miliwn yn 13/14). Rhagwelwyd y bydd tanwariant o £309k (£327k yn is y mis diwethaf) ar wasanaethau a chyllidebau corfforaethol. Ceir mwy o fanylion isod. Cytunwyd ar arbedion o £7.1m fel rhan o'r gyllideb a cheir y manylion yn **Atodiad 2**. Mae'r atodiad yn dangos bod 90% wedi'u cyflawni a bod 10% yn y broses o gael eu cyflawni.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae manylion gwasanaethau perthnasol ar gael yn y paragraffau isod.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden –** yn ôl y rhagolwg presennol bydd y gwasanaeth yn adennill ei gostau. Fodd bynnag, mae aelodau safleoedd hamdden yn parhau i gynyddu ac os bydd y duedd hon yn parhau, mae'n debygol y bydd yr adran yn gweld tanwariant arian parod ar ddiwedd y flwyddyn.

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiant –** Rhagwelir ar hyn o bryd  y bydd y gwasanaeth yn tanwario o £240k (£226k y mis diwethaf) o ganlyniad i'r gwariant yn is na'r hyn a gynlluniwyd ar leoliadau'r Blynyddoedd Cynnar i blant 3 oed (tua. £50k yn llai na'r gyllideb) ac arbedion o ran swyddi gwag, yn ymwneud yn rhannol â secondiad i Lywodraeth Cymru ac yn rhannol oherwydd yr ailstrwythuro o fewn y gwasanaeth mewn ymateb i'r ymarfer Rhyddid a Hyblygrwydd. Mae'r symudiad y mis hwn yn ymwneud â chynnydd pellach mewn arbedion o ran swyddi gwag sy'n ymwneud â chyflawniad cynnar arbedion effeithlonrwydd yn 2015/16.

**Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd** - mae'r tanwariant wedi digwydd o ganlyniad i swydd wag ac incwm allanol o erlyniad llwyddiannus.

**Cyllid ac Asedau** – rhagwelir y bydd tanwariant o £40k oherwydd bod costau'r Tîm Buddsoddiadau Eiddo Strategol yn llai nag a gynlluniwyd yn y flwyddyn, yn ogystal ag arbedion o swyddi gwag yn yr adran Gyllid. Bydd y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i ariannu costau ailstrwythuro fel rhan o arbedion cyllidebol 2015/16.

**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** - mae'r gwasanaeth yn parhau i wynebu nifer o bwysau a risgiau yn 2014/15. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gorwariant o £438k, er bod y gwasanaeth yn parhau i geisio nodi camau i gynnwys y pwysau hyn.  Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth yn debygol o gael eu hystyried fel opsiwn ariannu yn y flwyddyn gyfredol.

Mae'r gorwariant o fewn y Gwasanaeth Cludiant Ysgol yn parhau ar £221k ac mae'n seiliedig ar nifer y disgyblion ym mis Medi ac anghenion cludiant. Mae Grŵp Tasg a Gorffen yn gweithio tuag at nodi atebion parhaol i'r broblem hon.

Mae'r gostyngiad mewn incwm parcio yn ystod 2013/14 wedi parhau ynghyd â gostyngiad parhaus mewn incwm Rhybuddion Talu Cosb (RhTC). Mae camau rheoli o ran incwm RhTC bellach wedi lleihau'r gorwariant a ragwelir i £200k.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae pryder ynghylch incwm y ffioedd dylunio y mae'r Cyngor yn eu derbyn gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA). Rhagwelir y bydd tangyflawniad incwm o £116k o ganlyniad i'r duedd barhaus o leihad yn nifer y swyddi a geir gan NMWTRA. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu lleihau costau er mwyn cyfyngu ar effaith y newid hwn. Fodd bynnag, cyllideb incwm y ffi yw £221k, felly dim ond yn rhannol y gall gostyngiadau o ran gwariant gywiro'r broblem.

**Oedolion a Gwasanaethau Busnes –** Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd tanwariant na fydd yn parhau o £43k (ychydig yn is na'r £66k a adroddwyd mis

diwethaf) yn sgil costau staffio a fyddai fel arfer yn cael eu codi ar y gyllideb refeniw a gaiff ei dyrannu yn erbyn y grant Cronfa Gofal Canolraddol ar gyfer 14/15.

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd Gofal Iechyd ac Uned Weithgynhyrchu Cefndy yn cadw at y gyllideb, ond yn hanesyddol bu gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Felly, mae angen bod yn ofalus gyda'r dybiaeth hon gan fod elfen o risg yn gysylltiedig â'r farchnad werthu allanol.

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd –** y rhagolygon ar hyn o bryd yw tanwariant net o £227k (ychydig yn is na’r £242k a adroddwyd y mis diwethaf). Mae'r tanwariant cyffredinol o ganlyniad i nifer o'r arbedion cyllideb a gynigiwyd y cytunwyd arnynt ar gyfer 15/16 eisoes wedi cael eu rhoi ar waith eleni ynghyd â thanwariant a ragwelir ar y gyllideb lleoliadau arbenigol - er bod yr olaf wedi gostwng y mis hwn, sy'n cyfrif am y gostyngiad bach yn y tanwariant cyffredinol.

Cytunodd y Cyngor i neilltuo £250k yn 2013/14 i ariannu addasiadau i eiddo mewnol gofalwyr maeth i leihau nifer y lleoliadau allanol sy'n ofynnol yn y dyfodol o bosibl. Mae'r achos busnes bron wedi'i gwblhau ac mae'n bleser adrodd bod 5 gofalwr maeth wedi cytuno dros dro i gymryd rhan yn y prosiect. Ar hyn o bryd, mae Gwasanaethau Eiddo yn gweithio ar oblygiadau cost tebygol o wneud y gwaith

**Ysgolion** – ar ddiwedd mis Rhagfyr y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion yw £2.605 miliwn, sy’n ostyngiad o £1.287 miliwn ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2013/14 (£3.892 miliwn). Mae’r Gyllideb nad yw’n ddirprwyedig yn rhagweld tanwariant o £20k ar hyn o bryd.

Rhagwelir y tanwariant o £170 mil yn y cyllidebau **corfforaethol.** Cymerir yn ganiataol y bydd unrhyw danwariant corfforaethol yn cyfrannu at ariannu'r Cynllun Corfforaethol. **Ar ddechrau 2014/15 roedd cronfeydd arian parod y Cynllun Corfforaethol ar yn £14.4 miliwn.** Gan ganiatáu ar gyfer ariannu a gwariant sydd wedi eu rhagamcan yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir y bydd balans y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn yn £15.6m.

**Cyfrif Refeniw Tai** Mae’r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio gostyngiad mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £100k o’i gymharu â chynnydd yn y gyllideb o £163k. Rhagwelir y bydd balansau CRT yn £1.2m ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagolwg gwariant y Cynllun Cyfalaf Tai yw £5.0m.

**Rheoli’r Trysorlys -** Ar ddiwedd mis Rhagfyr, roedd cyfanswm benthyciadau’r cyngor yn £148.546m ar gyfradd gyfartalog o 5.45%. Roedd balansau buddsoddi yn £32.1 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.60%.

Roedd gwariant **Cynllun Cyfalaf** y Cyngor yn £17.3 miliwn yn erbyn Cynllun o £39.4 miliwn ddiwedd mis Rhagfyr. Mae'r Cynllun Cyfalaf yn cynnwys gwariant amcangyfrifedig o £13.1 miliwn ar y Cynllun Corfforaethol. Mae crynodeb o'r cynllun wedi ei gynnwys yn Atodiad 3 a diweddariad ar y prosiectau mawr yn Atodiad 4.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Cyflwynwyd crynodeb o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i’r Cyngor i gefnogi'r arbedion yn y gyllideb eleni.

8. **Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cyn eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir, cytunodd Penaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Arweiniol ar yr arbedion, a chawsant eu cyflwyno mewn gweithdai cyllideb i’r aelodau a chawsant eu dosbarthu i staff. Cafodd y cynigion i fantoli'r gyllideb eu trafod yn fanwl yn y gweithdai i aelodau a rhoddwyd y cyfle i’r aelodau godi materion cyn mynd â’r adroddiad terfynol ger bron y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi derbyn diweddariadau rheolaidd gan fod ganddo rôl yn cadw trosolwg dros broses y gyllideb.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’n bwysig bod gwasanaethau’n parhau i reoli cyllidebau’n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa’r gostyngiadau y mae’n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

10. **Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni’r strategaeth y cytunwyd arni gogyfer â’r gyllideb yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli’r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.